

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**  
**CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**TÎM COMISIYNU**

**ADRODDIAD MONITRO CONTRACTAU**

<b><u>Enw/Cyfeiriad y Darparwr:</u></b>	Rachel Kathryn, Argoed
<b><u>Dyddiad yr Ymweliad:</u></b>	Dydd Iau 23 Mai 2019, 9.30am–2.00pm
<b><u>Swyddog(ion) Ymweld:</u></b>	Andrea Crahart, Swyddog Monitro Contractau, CBS Caerffili
<b><u>Yn bresennol:</u></b>	Claire Hobbs, Rheolwr Cofrestredig Dawn Hobbs, Unigolyn Cyfrifol (yn bresennol ar ddechrau'r ymweliad)

**1. Cefndir**

- 1.1 Mae Rachel Kathryn yn eiddo bach deulawr sy'n gartref i bobl ag anabledd dysgu, anabledd corfforol, problem iechyd meddwl neu bobl hŷn. Mae'r eiddo mewn ardal breswyl dawel yn Argoed, ar gyrion Coed Duon. Ar adeg yr ymweliad roedd 4 o breswylwyr yn byw yn y cartref (a ariennir drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili).
- 1.2 Cyhoeddwyd adroddiad arolygu diweddaraf Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar y cartref ym mis Gorffennaf 2018. Nodwyd nifer o feysydd o ddiffyg cydymffurfio, megis rhoi meddyginiaeth, adolygiadau o gynlluniau gofal, adolygiadau o ansawdd gofal, hysbysiadau am ddigwyddiadau, ac ymweliadau gan y Darparwr Cofrestredig. Rhoddodd y Rheolwr ddiweddariad ar y cynnydd gyda'r meysydd hyn.
- 1.3 Cynhaliwyd ymweliad monitro blaenorol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) ym mis Ebrill 2018 pan nodwyd nifer o gamau unioni. Mae'r adroddiad ar y camau hyn i'w weld yn adran 2 o'r adroddiad hwn.
- 1.4 Yn dibynnu ar ganfyddiadau'r adroddiad, caiff y darparwr gamau unioni a datblygiadol i'w cwblhau. Camau unioni yw rhai y mae'n rhaid eu cwblhau (yn ddeddfwriaethol ac ati) a chamau datblygiadol yw rhai sy'n cael eu hystyried yn arfer da. Defnyddiwyd Adnodd Monitro Contract at ddibenion cynnal yr ymweliad monitro.

**2. Argymhellion Blaenorol**

**2.1 Camau unioni**

- 2.1.1 Matrics hyfforddiant i ddangos a gynhelir hyfforddiant codi a chario bob blwyddyn yn ogystal â phob tair blynedd. **Amserlen: O fewn mis. Heb ei gyflawni.**
- 2.1.2 Yr holl staff sy'n gweithio yn Rachel Kathryn i lofnodi cynlluniau personol ar gyfer gwacáu'r adeilad ar gyfer yr holl breswylwyr. Amserlen: o fewn mis. **Rheoliad RISCA 57. Cam gweithredu wedi'i gyflawni.**

- 2.1.3 Preswlydd (LT) i lofnodi cydsyniad i ddefnyddio canllawiau gwely, gwybodaeth i'w hymgyngori yng Nghynllun Personol y person a'i hadolygu'n rheolaidd. Amserlen: o fewn 2 fis. *Rheoliad RISCA 14. Cam gweithredu wedi'i gyflawni.*
- 2.1.4 Cynllun Personol i'w ddiweddarau i gynnwys gofal a ddarperir mewn perthynas â hylendid traed, dwylo a'r geg. Amserlen: o fewn 2 fis. *Rheoliad RISCA 15. Cam gweithredu wedi'i gyflawni.*
- 2.1.5 Holl staff presennol y tîm i lofnodi cynllun Codi a Chario, ar sail barhaus. Amserlen: o fewn mis. **Cam gweithredu wedi'i gyflawni.**
- 2.1.6 Sicrhau bod y gwres yn yr heuldy ar dymheredd addas sy'n gyfforddus i bobl. Amserlen: o fewn 3 mis. *Rheoliad RISCA 43/44. Cam gweithredu wedi'i gyflawni.*
- 2.1.7 Sicrhau bod y matrices hyfforddiant yn gyfredol. Amserlen: o fewn mis. *Rheoliad RISCA 34. Cam gweithredu wedi'i gyflawni.*

### **3 Unigolyn cyfrifol**

- 3.1 Cafodd Rachel Kathryn ei ailgofrestru gydag AGC ym mis Gorffennaf 2018, yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Cadarnhawyd bod yr Unigolyn Cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth yn ymweld â Rachel Kathryn yn rheolaidd. Fel rhan o'r rôl hon, disgwylir i'r Unigolyn Cyfrifol lunio adroddiadau bob chwarter i adrodd yn rheolaidd ar y gwasanaeth a'i ansawdd. Roedd yn amlwg bod yr adroddiadau hyn wedi'u llunio ers i'r gwasanaeth ailgofrestru ac roeddent yn cynnwys adborth uniongyrchol gan unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, aelodau o'r staff a rhai camau gweithredu a nodwyd.
- 3.2 Gofynnwyd am Ddatganiad o Ddiben y Cartref ac roedd tystiolaeth bod hwn wedi'i adolygu'n ddiweddar. Mae'n rhaid diweddarau'r ddogfen hon yn sgil unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth a'i hadolygu bob blwyddyn.
- 3.3 Pe bai'r Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr yn absennol, y cynllun wrth gefn a fyddai'n cael ei roi ar waith fyddai i'r Uwch-ofalwr gyflenwi yn eu habsenoldeb.
- 3.4 Edrychwyd ar bolisiâu a gweithdrefnau gorfodol y Cartref yn dilyn yr ymweliad (e.e. Diogelu, cynorthwyo a datblygu'r staff, Cwynion, etc). Fodd bynnag, nid oedd yr holl bolisiâu gorfodol ar gael. Dylai'r holl bolisiâu a gweithdrefnau fod ar gael a dylent gynnwys dyddiad pan gawsant eu hadolygu ddiwethaf a dyddiad adolygu arfaethedig yn y dyfodol.

### **4 Rheolwr Cofrestredig**

- 4.1 Mae'r Rheolwr wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, ac mae'n rheoli cartref preswyl bach arall ym mwrdeistref sirol Caerffili, sydd hefyd wedi'i gofrestru ac yn cael ei fonitro gan y Tîm Comisiynu.
- 4.2 Mae teledu cylch cyfyng yn yr eiddo, sydd yn ardal awyr agored yr eiddo/y dramwyfa. Felly, nid oes angen cydsyniad gan unigolion gan ei fod yn yr awyr agored.
- 4.3 Ar hyn o bryd, cadarnhaodd y Rheolwr nad oedd unrhyw bryderon ynghylch yr adeilad, h.y. mae'r lifft yn gweithio, ac yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd; mae dŵr poeth ar gael ac ati.

4.4 Mae'r Rheolwr yn sicrhau y caiff hysbysiadau (o dan Reoliad 60) eu hanfon ymlaen i AGC a'r Tîm Comisiynu os oes digwyddiadau pwysig.

## **5. Canfyddiadau o'r Ymweliad**

### **5.1 Cynlluniau Personol (Cynlluniau Darparu Gwasanaeth)**

5.1.1 Cedwir ffeiliau'r preswylwyr mewn cabinet addas y gellir ei gloi yn yr eiddo.

5.1.2 Roedd y Cynllun Personol (Cynllun Darparu Gwasanaeth) yn y ffeil yn ddisgrifiadol iawn am anghenion y person, roedd yn canolbwyntio ar y person ac yn cael ei rannu'n arferion sy'n angenrheidiol ar gyfer amseroedd amrywiol y diwrnod (h.y. bore, cinio, te, gyda'r hwyr a'r nos).

5.1.3 Cynhaliwyd adolygiadau rheolaidd yn uniongyrchol gyda'r preswilydd er mwyn cael ei farn/sylwadau ar y gwasanaeth, e.e. sut mae'n teimlo, a oes unrhyw bryderon/problemau, a oes angen newid unrhyw beth.

5.1.4 Roedd yn amlwg bod apwyntiadau gofal iechyd yn cael eu cynnal, e.e. meddyg teulu, nyrsys ardal yn ymweld ddwywaith bob dydd, cynhelir apwyntiadau llygaid yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac ati.

### **5.2 Aseidiadau Risg**

5.2.1 Roedd Aseidiadau Risg ar gael ar gyfer risgiau, e.e. rheoli wlserau pwyso, cynnau sigarét heb oruchwyliaeth ac ati. Nid oedd yr Aseidiadau Risg hyn wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn dal i fod yn berthnasol ac yn adlewyrchu anghenion presennol y person yn gywir. Dylid eu hadolygu bob 3 mis, neu'n gynt os bydd angen.

5.2.2 Roedd Aseiad Risg priodol wedi cael ei gwblhau mewn perthynas â chanllawiau gwely a oedd yn angenrheidiol yn yr achos hwn.

### **5.3 Cwynion a Chanmoliaeth**

5.3.1 Mae gan gartref Rachel Kathryn bolisi Cwynion cadarn ar waith sydd i'w ddilyn os ceir cwyn.

5.3.2 Os ceir unrhyw gwynion, byddai'r Rheolwr Cofrestredig yn gyfrifol am brosesu ac archwilio'r rhain.

### **5.4 Staffio**

5.4.1 Mae'r tîm o staff wedi profi rhai newidiadau yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac mae'r Rheolwr wedi recriwtio uwch-ofalwr profiadol newydd yn ddiweddar.

5.4.2 Caiff lefelau staffio eu hailystyried pan fydd aelod o'r staff yn gadael, yn ystod cyfnodau o salwch ac yn unol ag anghenion y preswylwyr.

5.4.3 Mae'r Cartref yn parhau i elwa ar gael tîm o staff sy'n weddol gyson a sefydlog, gydag aelod o staff wrth gefn yn cael ei gyflogi i gyflenwi yn absenoldeb aelodau o'r

staff ac ati. Yn ystod cyfnodau o salwch, mae'r Rheolwr yn gallu defnyddio staff o chwaer-gartref yn y fwrdeistref sirol.

- 5.4.4 Edrychwyd ar ffeiliau dau aelod o'r staff ac roeddent wedi cael eu mynegeo'n glir ac yn cynnwys rhestr wirio recriwtio. Roedd y ffeiliau'n cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth angenrheidiol, h.y. dau eirda ysgrifenedig, disgrifiad swydd, ffurflen gais fanwl, ffotograff, tystysgrifau hyfforddi, gwybodaeth o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, roedd cofnodion cyfweiliad yn absennol o un o'r ffeiliau ac er bod contractau cyflogaeth yn y ddwy ffeil, nid oedd dyddiad ar un ohonynt. Daethpwyd â'r materion hyn i sylw'r Rheolwr yn ystod yr ymweliad a chytunodd i'w hunioni.

## 5.5 Hyfforddiant

- 5.5.1 Edrychwyd ar fatrics hyfforddi'r Cartref, ac roedd yn amlwg ei fod wedi cael ei ddiweddarau ers yr ymweliad monitro blaenorol. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant gorfodol, megis Codi a Chario, Hylendid Bwyd, Diogelu, Rheoli Heintiau, Cymorth Cyntaf, Ymwybyddiaeth o Feddyginiaethau ac Ymddygiad Heriol.
- 5.5.2 Roedd yr hyfforddiant arall a gafwyd, nad oedd yn orfodol, yn cynnwys Deddf Galluedd Meddyliol, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Ymwybyddiaeth Tân, Iechyd a Diogelwch, Gofal Pwysau, Ymwybyddiaeth o Strôc ac Ymwybyddiaeth o Epilepsi.
- 5.5.3 Mae'r hyfforddiant yn parhau i gael ei ddefnyddio drwy Weithlu Dysgu a Datblygu CBSC/Blaenau Gwent (sy'n hyfforddiant wyneb yn wyneb), sesiynau hyfforddi un i un/grŵp drwy asiantaeth Gofal Cartref leol (i gyflogeion newydd), a sesiynau grŵp Hyfforddi'r Hyfforddwr (Codi a Chario, Diogelu, Cymorth Cyntaf), a gynhelir gan Reolwr Cofrestredig y cartref gofal. Defnyddir e-ddysgu ar gyfer hyfforddiant megis Amddifadu o Ryddid, technegau lleddfu pwysau, epilepsi, ymddygiad heriol, rheoli heintiau ac ymwybyddiaeth o strôc. Dywedodd y Rheolwr y cafwyd rhai anawsterau wrth gael gafael ar hyfforddiant yn amserol oherwydd y galw, ond roedd y staff bellach yn gallu cael gafael ar hyfforddiant drwy ddarparu'r arall.
- 5.5.4 Roedd gan y Rheolwr ddealltwriaeth o'r gofyniad i ofalwyr gofrestru yn y dyfodol ac o'r newid o Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru (y Cyngor Gofal gynt) i 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan', a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2018. Anogwyd y Rheolwr i ddefnyddio gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn cael mwy o wybodaeth am y rhain. Mae'r holl staff presennol wedi ennill cymhwyster NVQ/FfCCh ym maes gofal cymdeithasol, neu maent yn gweithio tuag at un o'r rhain.

## 5.6 Goruchwylio ac Arfarnu

- 5.6.1 Nid oedd y matrices Goruchwylio/Arfarnu wedi cael ei ddarparu, felly nid oedd y Swyddog Monitro'n gallu penderfynu a oedd yr holl staff yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu, yn unol â rheoliadau AGC. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r ffeil yr edrychwyd arni fod sesiwn i aelod newydd o'r staff wedi cael ei chynnal ar ôl ei gyfnod prawf. Dylid cynnal sesiynau goruchwylio ar sail 1:1 bob chwarter ac arfarniadau bob blwyddyn.

## **6 Sicrhau Ansawdd**

### **6.1 Adborth gan Ddefnyddwyr y gwasanaeth/Rhanddeiliaid**

6.1.1 Mae adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid yn parhau i gael eu casglu er mwyn llywio'r gwasanaeth. Yn dilyn arolygiad gan AGC, mae'r Cartref wedi datblygu hyn ymhellach er mwyn cynnwys yr adroddiadau a ysgrifennir gan yr Unigolyn Cyfrifol, gwybodaeth am gyfarfodydd staff a chyfarfodydd defnyddwyr y gwasanaeth/teulu, y Cynllun Datblygu Blynyddol, hysbysiadau am Reoliad 60 a gwybodaeth am ddamweiniau, ac ati.

6.1.2 Mae'r newidiadau a wnaed, yn seiliedig ar yr adborth, yn cynnwys rhoi mwy o gymorth cymdeithasol, a thrwy hynny ganiatáu i bobl gael mynediad i'r gymuned. Yn ogystal, mae ffolder meddyginiaethau cadarn wedi'i roi ar waith.

### **6.2 Rheoli arian Preswylwyr**

6.2.1 Pan na all unigolion reoli eu cyllid eu hunain, mae angen i'r Cartref sicrhau bod ganddo brosesau cadarn ar waith i'w reoli'n effeithiol. Edrychwyd ar gofnodion trafodion (incwm a gwariant) ac er bod y wybodaeth wedi cael ei dogfennu'n glir, ar hyn o bryd dim ond un person oedd yn llofnodi yn erbyn pob trafodyn. Yn unol â pholisi CBSC, dylid cael dau lofnod. Trafodwyd hyn â'r Rheolwr a gadarnhaodd ei fod yn rhywbeth roedd hi'n bwriadu ei newid cyn gynted â phosibl.

6.2.2 Roedd y ddalen gofnodi yr edrychwyd arni'n nodi y ceir derbynebaw ar gyfer pryniannau a bod y rhain yn cael eu cyfeirnod.

### **6.3 Diogelwch Tân**

6.3.1 Cynhaliwyd yr Aseiad Risgiau Tân diweddaraf ym mis Medi 2017, ar ôl cael ei adolygu ym mis Rhagfyr 2018. Roedd nifer o gamau gweithredu yn deillio o'r aseiad hwn wedi cael eu cwblhau.

6.3.2 Edrychwyd ar gofnodlyfr diogelwch tân a oedd yn nodi bod yr ymarfer tân diweddaraf wedi cael ei gynnal ym mis Ebrill 2019. Mae disgwyl bod y rhain yn cael eu cynnal ddwywaith bob blwyddyn oni bai bod yr Aseiad Risgiau Tân yn nodi'n wahanol.

## **7 Amgylchedd y Cartref**

7.1 Roedd yr ardaloedd o'r cartref a welwyd yn ystod yr ymweliad yn edrych yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Ni nodwyd unrhyw aroglau gwael mewn unrhyw ardal.

7.2 Mae sied allanol y gall pobl ei defnyddio at ddibenion ysmegu os hoffent wneud hynny, ac mae pobl hefyd yn cael defnyddio gardd fawr.

7.3 Mae gan gartref Rachel Kathryn heuldy mawr y gellir ei ddefnyddio fel lolfa dawel os bydd unrhyw breswylwyr am siarad ag ymwelwyr heb orfod mynd i'w hystafelloedd gwely eu hunain ac ati, ac y gall aelodau o'r staff ei ddefnyddio at ddibenion cyfarfodydd/goruchwyliaeth ac ati. Yn y gorffennol, nodwyd bod yr ystafell hon yn eithaf oer, ac yn rhy gynnes yn ystod tywydd poeth. Fodd bynnag, roedd y darparwr wedi gwneud cynnydd wrth unioni'r mater hwn drwy ychwanegu teils at y to. Cadarnhaodd y Rheolwr fod yr ystafell yn well o lawer o ganlyniad i hynny. Yn ystod y flwyddyn flaenorol, roedd carped newydd wedi cael ei osod ar y grisiau hefyd.

- 7.4 Roedd cloeon addas wedi cael eu gosod yn yr ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd gwely (h.y. cafwyd gwared ar y bolltau a gosodwyd cloeon a fydd yn caniatáu i'r drysau hyn gael eu hagor o'r tu allan, os bydd argyfwng).

## **8 Arsylwadau a Sylwadau'r Swyddog Monitro Contractau**

- 8.1 Nid oedd unrhyw broblemau gyda golwg gyffredinol yr unigolion a oedd yn y cartref ar adeg yr ymweliad.
- 8.2 Nid oedd unrhyw broblemau o ran diogelwch, glendid a chyfforddusrwydd yn y Cartref.
- 8.3 Roedd gan y staff gydberthnasau da â'r unigolion a oedd yn derbyn gofal.

## **9 Camau Unioni/Datblygiadol**

### **Camau unioni**

- 9.1 Asesiadau risg i'w cynnal bob 3 mis (neu'n gynt, os bydd angen) er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu anghenion y person (CJ), ac i'w cymhwyso i unigolion eraill hefyd. **Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus.**
- 9.2 Cofnodion cyfweiliad i'w rhoi yn ffeil yr aelod o'r staff, yn ogystal â dyddio'r Contract Cyflogaeth, gan y ddau barti. **Amserlen: O fewn mis.**
- 9.3 Sesiynau gloywi Codi a Chario (hyfforddiant ymarferol) blynyddol i'w cynnal ar gyfer y staff y mae angen y rhain arnynt ac er mwyn diweddarau'r matrices hyfforddi'n briodol. **Amserlen: O fewn 6 mis.**
- 9.4 Polisiâu a Gweithdrefnau Gorfodol (Rheoliad 12) i'w hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol a'u bod yn adlewyrchu'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, ac i gynnwys dyddiad adolygu cynlluniedig (fel arfer bob blwyddyn neu'n gynt). **Amserlen: O fewn 3 mis.**

### **Camau Datblygiadol**

- 9.5 Edrych ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn deall trefniadau'r dyfodol ar gyfer cofrestru gofalwyr a Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan newydd i ofalwyr newydd. **Amserlen: O fewn 24 mis.**

## **10 Casgliad**

- 10.1 Mae cartref Rachel Kathryn yn parhau i gynnig awyrgylch hamddenol, hapus a chartrefol, lle mae unigolion yn elwa o ryngweithio da â'r staff.
- 10.2 Gwnaed cynnydd da gyda chyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn yr ymweliad monitro blaenorol, a bydd unrhyw gamau gweithredu pellach a nodwyd yn ystod yr ymweliad hwn yn cael eu gwirio yn ystod ymweliadau yn y dyfodol.

10.3 Hoffai'r Swyddog Monitro Contractau ddiolch i staff a phreswylwyr cartref Rachel Kathryn am eu hamser a'u lletygarwch.

**Awdur:** Andrea Crahart  
**Swydd:** Swyddog Monitro Contractau  
**Dyddiad:** Mehefin 2019

**Noder:** Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i breswylwyr ac/neu eu teuluoedd ar gais.